**Diolch am y Waredigaeth**
allan o Rhyfedd, Rhyfedd

Efe yw'r Iawn fu rhwng y lladron,
Efe ddioddefodd angau loes,
Nerthodd freichiau'i ddienyddwyr,
I'w hoelio yno ar y groes;
Wrth dalu dyled pentewynion,
Ac anrhydeddu deddf ei Dad,
Cyfiawnder, mae'n disgleirio'n danbaid,
Wrth faddau yn nhrefn y cymod rhad.

O f'enaid, gwêl y fan gorweddodd
Pen brenhinoedd, awdwr hedd,
Y greadigaeth ynddo'n symud,
Yntau'n farw yn y bedd,

Cân a bywyd colledigion,
Rhyfeddod mwya' angylion nef:
Gweld Duw mewn cnawd a'i gydaddoli
Mae'r côr dan weiddi, 'Iddo Ef'.

Diolch byth, a chanmil diolch,
Diolch tra bo yno'i chwyth
Am [fod] gwrthrych i'w addoli,
A thestun cân i bara byth;
Yn fy natur wedi ei demtio,
Fel y gwaela' o ddynol ryw,
Yn ddyn bach, yn wan, yn ddinerth,
Yn anfeidrol wir a bywiol Duw.

***Ann Griffiths***